

**Rhwydwaith Cynnwys y Cyhoedd mewn Addysg ac Ymchwil
(PEER)
Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Bangor**

Cylchlythyr y Gwanwyn Rhif 1 Mai 2016



Croeso

Croeso i'n cylchlythyr cyntaf lle byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddigwyddiadau a datblygiadau yn y rhwydwaith PEER. A fydddech cystal â rhannu hwn gydag aelodau eich grŵp ac anfon unrhyw wybodaeth yr hoffech ei chynnwys yn y cylchlythyr at yr Arweinydd Ymwneud â'r Cyhoedd, Dr Marjorie Ghisoni (m.ghisoni@bangor.ac.uk). Cyflwynir yr holl wybodaeth mewn fformat hawdd ei ddarllen gyda chyn lleied â phosibl o jargon, fel yr awgrymwyd gan Cyfranogaeth Cymru (2011) yn eu Hegwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd. (I gael rhagor o wybodaeth, gweler <http://www.participationcymru.org.uk/national-principles>)

Ymwneud â'r Cyhoedd ar draws yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd


Erbyn hyn mae gennym we-dudalen ar wefan yr Ysgol sydd dim ond er gwybodaeth ar hyn o bryd, ond gobeithiwn y gallwn ei datblygu ymhellach wrth i ni dyfu ac ehangu. Mae yna strategaeth rhwydwaith hefyd yn cael ei pharatoi a'i chyfieithu a all hefyd fynd ar y wefan gyda'r cylchlythyr hwn, mewn ymdrech i fod mor agored â phosibl gyda'r cyhoedd. Gweler <https://www.bangor.ac.uk/healthcaresciences/> am fwy o wybodaeth.

Aelodaeth Rhwydwaith Cynnwys y Cyhoedd mewn Addysg ac Ymchwil (PEER).

Mae'r rhwydwaith ehangach yn cynnwys 29 o bobl allweddol sy'n gysylltiedig â sefydliadau eraill, yn ogystal ag aelodau unigol - gweler y diagram isod. Mae hyn yn ein galluogi i gael hyd i aelodau o'r cyhoedd yn ehangach i ymwneud â gweithgareddau'r ysgol, ac i rannu ein gwybodaeth gyda sefydliadau eraill. Gobeithio y bydd hyn yn dod yn system ddwy ffordd fel y gellir rhannu gwybodaeth ar draws yr holl rwydweithiau a hefyd o fewn y cylchlythyr hwn.

Fel nad yw pobl yn cael eu llethu gan negeseuon e-bost mae yna hefyd grŵp ymgynghorol llai o tua 10 o bobl sy'n barod i roi cyngor ar weithgareddau o fewn y rhwydwaith; er enghraifft, y strategaeth, dogfennau cwricwlwm a thafleuni gwybodaeth ymchwil etc.

Diagram 1 - Aelodau'r Rhwydwaith PEER



Newyddion a Digwyddiadau

Diben y cylchlythyr hwn hefyd yw rhannu unrhyw newyddion a digwyddiadau a bydd hyn yn dibynnu ar i aelodau'r rhwydwaith rannu gwybodaeth fel uchod ac anfon gwybodaeth i'r Arweinydd Ymwneud â'r Cyhoedd fel y gellir ei drosglwyddo ymlaen drwy'r rhwydweithiau eraill. Mae yna bethau pur gyffrous yn digwydd a ddylai annog aelodau i ymwneud mwy â gweithgareddau'r ysgol.

Chwefror 2016 Fe wnaeth yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd gynnal cyfweiliadau i fyfyrwyr gydol yr wythnos ar safleoedd Wrecsam a Bangor. Daeth nifer dda o fyfyrwyr yn ogystal â defnyddwyr gwasanaethau a gwirfoddolwyr o blith gofalwyr i'r rhain. Bu defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn gweithio gyda staff i arwain tasgau gwaith grŵp a chyfweld myfyrwyr unigol. Roedd sylwadau a gafwyd gan y gwirfoddolwyr yn gadarnhaol iawn a chawsant gryn fudd o fod yn rhan o'r broses. I gael mwy o wybodaeth am wirfoddoli yn unrhyw ddigwyddiadau, cysylltwch â'r arweinydd ar iechyd cyhoeddus, Marjorie Ghisoni, a fydd yn rhoi gwybod i'r bobl sy'n trefnu'r achlysur.

Mae Dr Malcolm Godwin wedi bod yn cydweithio'n agos â The Pan London Initiative i ddatblygu ffurflen sylwadau defnyddwyr y gall myfyrwyr fynd â hi gyda hwy i leoliadau. Gofynnir i fyfyrwyr gasglu o leiaf 5 o sylwadau'r flwyddyn ac mae'n ymddangos bod hyn yn gweithio'n dda mewn gwirionedd. I ddarllen mwy ewch i https://www.heacademy.ac.uk/sites/default/files/downloads/7.3_baillie_fish-eval_service_user_feedback.pdf

Ebrill 2016 Llwyddodd Dr Seren Roberts i benodi pedwar o ymchwilwyr o blith defnyddwyr gwasanaeth i'r project ymchwil "Darganfod Ffordd Ymlaen ar gyfer Lles Meddyliol" sy'n ymwneud ag adferiad iechyd meddyliol. Bydd yr ymchwilwyr yn dod yn aelodau llawn o'r tîm a byddant yn gyfrifol am gasglu a dadansoddi data gyda thîm y project. Mae'r grŵp hwn yn rhan o Grŵp Ymchwil Iechyd Meddwl Rhwydwaith Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr Cymru Gyfan, a gefnogir gan y Ganolfan Genedlaethol Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd. (I gael rhagor o wybodaeth, gweler <http://ncmh.info/>)

11 Mai 2016 Trefnodd Dr Ruth Wyn Williams ddigwyddiad gwrando ar Iechyd a Lles yn Fron Heulog ym Mangor i bobl gydag anabledau dysgu a'u gofalwyr i ddod ynghyd i drafod materion ym maes gofal iechyd. Mae Ruth yn gobeithio cynnal digwyddiadau tebyg yn y dwyrain yn fuan.

6 Mehefin Gwahoddwyd Grŵp Ymgynghorol Rhwydwaith PEER i ymuno â chyfarfod drwy gynhadledd fideo yng Nghanolfan Archimedes, Wrecsam. Roedd hyn fel rhan o Rwydwaith Gwyddorau Gofal Iechyd Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr Cymru Gyfan, sy'n cynnwys Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru. Gofynnwyd i'r grŵp hwn anfon sylwadau at y Gwasanaethau'r Gweithlu, Addysg a Datblygu, sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i fonitro a darparu gwasanaethau a hyfforddiant o ansawdd dda. Byddwn hefyd yn cyfarfod fel grŵp am y tro cyntaf a thrafod hyfforddiant a chefnogaeth i aelodau Rhwydwaith PEER.



Gwybodaeth a Chysylltiadau Defnyddiol

INVOLVE - mae hwn yn sefydliad ar draws Prydain sy'n helpu pobl i ddod i wybod mwy am gymryd rhan mewn ymchwil gofal iechyd a cheir peth gwybodaeth ddefnyddiol ar eu gwefan. Gellwch hefyd ymuno â'r rhestr ohebu am gylchlythyrau cyfredol. <http://www.invo.org.uk/>

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru - sefydliad newydd gyda'r nod o ddod â phobl sydd â diddordeb mewn cymryd mwy o ran mewn ymchwil at ei gilydd. Maent hefyd yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth ar draws Cymru. Edrychwch ar y wefan am leoliadau a dyddiadau cyfredol. <http://www.healthandcareresearch.gov.wales/>

Cyfranogaeth Cymru - rhwydwaith i Gymru gyfan sy'n cynnig hyfforddiant a chyfleoedd i rwydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys addysg, llywodraeth a sefydliadau trydydd sector. Edrychwch ar y wefan am leoliadau a dyddiadau. <http://www.participationcymru.org.uk/>